

Amserlen ar gyfer trafodion Cyfnod 2 o Fesur Arfaethedig Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ar 25 Mawrth 2009, cyflwynwyd yn y Cynulliad Fesur arfaethedig pwyllgor, 'Mesur Arfaethedig Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru'.

Ar 26 Tachwedd 2008, penderfynodd y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 21.1 sefydlu pwyllgor, a elwir yn Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, i drafod cynigion deddfwriaethol a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

Ar 31 Mawrth 2009, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 23.21, i gyfeirio'r Mesur i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, ar gyfer ystyriaeth fanwl Cyfnod 2.

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.19, mae'r Pwyllgor Busnes wedi sefydlu amserlen ar gyfer y Pwyllgor ac wedi cytuno y dylai'r trafodion Cyfnod 2 gael eu cwblhau erbyn 3 Gorffennaf 2009.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes Mawrth 2009